

Cofnodion

Dyddiad: 9 Chwefror 2000

Amser: 9.00am - 12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Presennol

Aelodau

Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd

Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Mick Bates

Sir Drefaldwyn

Glyn Davies

Canol a Gorllewin Cymru

Janet Davies

Gorllewin De Cymru

Jocelyn Davies, yn lle Ieuan Wyn Jones

Dwyrain De Cymru

Christine Gwyther

Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Carwyn Jones

Pen-y-bont ar Ogwr

Peter Rogers

Gogledd Cymru

Karen Sinclair

De Clwyd

ACRE

Yr Athro Chris Pollock

Swyddogion

Peter Fullerton (Eitem 2)

Pennaeth yr Adain Datblygiad Trefol a Gwledig

Mike Phelps (Eitem 2)

Pennaeth yr Adain Cyngor Economaidd

Jonathan Price (Eitem 2)	Adain Cyngor Economaidd
Bob Macey (Eitemau 1 a 3)	Pennaeth Adain yr Amgylchedd
Lynn Griffiths	Adain Polisi Amaethyddol
Gareth Jones (eitem 4)	Pennaeth Adain Rheoli CAP
Peter Jones (Eitem 4 a 6)	Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
Huw Brodie (eitem 5)	Pennaeth yr Adran Amaethyddiaeth
<i>Yr Ysgrifenyddiaeth</i>	
Adrian Crompton	Clerc
Howell Rees	Dirprwy Glerc

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac amnewidiadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ieuan Wyn Jones, yr oedd Jocelyn Davies yn ei gynrychioli, a Richard Edwards. Roedd Glyn Davies yn hwyr yn cyrraedd ond roedd yn bresennol o 9.45am ymlaen.

Eitem 2: Dangosyddion gwledig ar gyfer Amcan 1 - Papurau PDE 02-00(p.5), EDC 10-99 (t.11)

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried dangosyddion gwledig i'w cynnwys yn Nogfen Rhaglennu Unigol Amcan 1.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai ei safbwyntiau yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i'w trafod yn ddiweddarach yn y bore. Tynnodd Peter Fullteron sylw'r Pwyllgor at yr adrannau perthnasol o'r ddau bapur PDE a oedd yn egluro anawsterau datblygu dangosyddion gwledig penodol.

Wrth drafod gwnaed y pwyntiau canlynol:

- er y gallai GDP gael ei fesur ar lefel NUTS 3, roedd ffigurau o'r fath yn llai dibynadwy ac ystyrion nag yr oeddent ar gyfer ardal Amcan 1 neu Gymru yn gyffredinol. Ar gyfer ardaloedd lleol, roedd dau brif anhawster yn effeithio ar ddibynadwyedd GDP y pen fel dangosydd safonau byw;
- yn gyntaf, gan fod ffigurau GDP yn seiliedig ar y gweithle yn hytrach nag ar breswylfeydd, gallent gael eu heffeithio gan lefel all-gymudo. Gallai ardaloedd cymharol gyfoethog gael GDP is y pen pe bai llawer o'u preswylwyr yn cymudo i'r gwaith mewn ardaloedd eraill. Byddai mesur amgen - incwm i'w wario y pen - ar gael ar gyfer ardaloedd NUTS 3 yn ddiweddarach yn y

flwyddyn. Gan fod y mesur hwn yn seiliedig ar breswylfeydd, byddai'n rhoi dangosydd mwy dibynadwy o fywyd cymharol;

- yn ail, cafodd cyfran y dibynyddion effaith arwyddocaol ar GDP ar lefel NUTS 3. Ni chynhwyswyd pensiynau yn y mesur o GDP ardal leol, problem benodol mewn ardaloedd gwledig â phroffil oedran hŷn. Unwaith eto, byddai ffigurau incwm i'w wario ar gyfer y cartref yn cynnig mesur mwy ystyrlon;
- croesawodd y Pwyllgor y ffaith y byddai dangosyddion yn seiliedig ar fesurau penodol yn cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd mesurau unigol. Gallai'r rhain adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd trefol a gwledig.
- yn ogystal â dangosyddion economaidd, roedd angen dangosyddion ansawdd bywyd yn benodol ar gyfer ardaloedd gwledig, er enghraifft nifer y siopau a oedd wedi cau neu'r ffermydd a oedd wedi methu. Nododd y Pwyllgor y byddai'n bosibl trefnu arolygon ar gamau amrywiol o'r rhaglen i fesur dangosyddion o'r fath;
- roedd angen ffyrdd mwy arloesol o fesur cymunedau cynladwy. Nododd y Pwyllgor y byddai'n bosibl, o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig, cynorthwyo gwasanaethau sylfaenol mewn pentrefi gwledig. Fodd bynnag, dylai'r cymorth hwn adlewyrchu anghenion lleol ac ni fyddai'n synhwyrol pennu targedau Cymru gyfan.
- mewn perthynas â mesurau sydd ar gael ar ansawdd pridd, aer a dŵr nododd y Pwyllgor y byddai'r cynllun datblygiad cynladwy yn awgrymu ystod o fesurau amgylcheddol a chynladwy. Roedd Gwell Cymru eisoes yn cynnwys dangosyddion ansawdd aer a dwr afonydd. Mae data hefyd ar gael ar ansawdd dwr ymdrochi a chydymffurfiad. Byddai gweithredu i adfer tir llygredig a gwella'r ffordd y rheolir gwastraff yn helpu i wella ansawdd y tir.
- gallai milltiroedd bwyd, a oedd yn cysylltu â phrosesu cynnyrch fferm gwerth ychwanegol, cyfran y cynnyrch organig, a defnyddio cludiant cyhoeddus, fod yn ddangosydd defnyddiol.
- gallai cysylltiadau â swyddogion awdurdodau lleol sy'n delio ag Agenda 21 Lleol fod yn werthfawr. Nododd y Pwyllgor fod cyswllt rheolaidd yn digwydd a oedd yn cynnig y potensial ar gyfer datblygu dangosyddion penodol ar lefel lleol;
- nododd y Pwyllgor fod mynegai diwygiedig o amddifadedd yn cael ei ddatblygu ac y byddai'n adlewyrchu'r sefyllfa mewn ardaloedd gwledig yn well;
- mynegwyd pryder ynglyn â lefel y gynrychiolaeth wledig ar y Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1;
- byddai cofnod o geisiadau gan ardaloedd gwledig yn ddangosydd da o lwyddiant ardaloedd gwledig wrth ymdrin ag Amcan 1. Nododd y Pwyllgor na wahoddwyd ceisiadau ffurfiol eto. Roedd y pwyslais presennol ar gysylltu ag awdurdodau lleol ac eraill ynglyn â'u hymagwedd strategol a datblygu cynlluniau cychwynnol;

Wrth grynhoi'r drafodaeth dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor am weld targedau mor lleol â phosibl ac ystod o ddangosyddion a oedd yn adlewyrchu anghenion ardaloedd gwledig. Dylai digon o hyblygrwydd fod yn y system er mwyn caniatáu i ardaloedd gwledig gyfrannu at y rhaglen ac elwa arni. Roedd angen pendant am addysgu ac annog pobl mewn ardaloedd gwledig i gyflwyno cynlluniau i dderbyn yr arian oedd ar gael: dylid nodi'r amseroedd aros hwy o bosibl mewn ardaloedd gwledig. Gofynnodd i Peter Fullerton gyfleu safbwyntiau'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a dywedodd y byddai deialog â'r Pwyllgor hwnnw'n parhau.

Eitem 3: Organeddau wedi'u Haddasu'n Enetig - rôl y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ryddhau i'r Amgylchedd (ACRE) - Papur ARD 02-00 (p.3)

Rhoddodd yr Athro Chris Pollock, Cyfarwyddwr Ymchwil yn y Sefydliad Ymchwil i Laswelltir a'r Amgylchedd a chadeirydd is-grwp ACRE gyflwyniad i'r Pwyllgor ar werthusiad ar raddfa fferm, ar gyflawni cyfrifoldebau asesu risg amgylcheddol ACRE a'i rôl wrth gynghori'r Cynulliad. (Atodir testun y cyflwyniad yn Atodiad 1).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y penderfyniad a wnaed gan y Cynulliad ym mis Mehefin 1999 y dylai Cymru arwain o ran rheoli organeddau wedi'u haddasu'n enetig a rhyddhau cnydau wedi'u haddasu'n enetig yn fasnachol. Gofynnodd i'r Athro Pollock egluro beth oedd opsiynau'r Cynulliad pe bai ACRE yn cael eu cynghori y dylid cymeradwyo rhyddhad arbrofol. Dywedodd yr Athro Pollock y byddai Gweinidogion yn gorfod ystyried unrhyw gais o fewn cyfyngiadau rheoliadau'r UE. Pe bai caniatâd yn cael ei wrthod a'r ymgeisydd yn ystyried bod y penderfyniad yn afresymol gallai penderfyniad y Cynulliad fod yn destun arolwg barnwrol.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- roedd yn rhaid gwneud dyfarniadau gwleidyddol ar sail cyngor gwyddonol ac yng nghyd-destun cyfraith yr UE;
- ni allai'r Cynulliad wneud penderfyniad cyffredinol. Roedd yn rhaid ystyried pob achos yng ngoleuni'r dystiolaeth wyddonol neu gallai'r Cynulliad wynebu arolwg barnwrol. Nododd y Pwyllgor mai ymagwedd y Cabinet mewn amgylchiadau lle nad oedd y cyngor gwyddonol yn bendant fyddai cymhwyso'r egwyddor ragofalus;
- nododd y Pwyllgor y byddai'r UE yn disgwyl cysondeb ar draws aelod-wladwriaethau oni bai fod yna resymau da dros fabwysiadu ymagwedd wahanol, megis gwahaniaethau yn yr amgylchedd lleol, a oedd yn newid yr asesiad o risg;
- roedd ACRE fel arfer yn ceisio cael consensws barn cyn rhoi penderfyniad. Cynorthwywyd hyn yn achos ceisiadau am ryddhad arbrofol gan broses iteraidd lle roedd yn ofynnol i ymgeiswyr ymateb i bryderon wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo. Roedd dull ACRE o weithio a'r ystod eang o arbenigedd o gymorth hefyd;
- roedd pryderon ymhlith sefydliadau masnachol mawr ynglyn â bwydydd wedi'u haddasu'n enetig (GM). Roedd nifer o archfarchnadoedd yn gwneud pwynt o werthu cynnyrch nad oedd wedi'i addasu'n enetig. Nododd y Pwyllgor mai ymateb i bwer defnyddwyr oedd hyn ond roedd llawer o sefydliadau yn credu bod angen arbrofion ar raddfa maes er mwyn sefydlu'r cydbwysedd rhwng risg a budd;
- nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth y DU wedi cyd-drafod cytundeb gwirfoddol â'r diwydiant lle na fyddai'r diwydiant yn marchnata cnydau wedi'u haddasu'n enetig nes bod y treialon graddfa maes cyfredol wedi'u gwerthuso'n llawn mewn tua dwy i dair blynedd. Nid oedd ACRE yn gyfrifol am labelu ond barn yr Athro Pollock oedd ei bod yn hanfodol rhoi labeli priodol ar fwydydd wedi'u haddasu'n enetig ar gyfer pobl ac ar gyfer bwyd anifeiliaid.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Pollock am ei gyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Pwyllgor. Dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'n bosibl i'r Pwyllgor ymweld â'r Sefydliad Ymchwil i Laswelltir a'r Amgylchedd yn y dyfodol.

Yn ystod yr egwyl cyflwynwyd plât coffa i'r Pwyllgor yn nodi 50 mlynedd o ddeddfwriaeth ers sefydlu parciau cenedlaethol gan y Cynghorydd Evan Morgan, Cadeirydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Mrs Morgan.

Ymddiheurodd Jocelyn Davies a Carwyn Jones yn y fan hon gan nad oeddent yn gallu bod yn bresennol am weddill y cyfarfod.

Eitem 4: Corff apeliadau annibynnol - Papur ARD 02-99(p.1)

Ystyriodd y Pwyllgor sefydlu corff apeliadau annibynnol i ystyried cwynion ar faterion amaethyddol.

Dywedodd Christine Gwyther wrth y Pwyllgor fod buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud yn swyddfeydd rhanbarthol yr Adran Amaethyddiaeth i ddarparu gwasanaeth gwell i ffermwyr. Roedd cefnogaeth gref ar draws y pleidiau am gorff apeliadau annibynnol a fyddai'n gwella'r gwasanaeth i ffermwyr ymhellach. Dywedodd Gareth Jones wrth y Pwyllgor fod y Gweinidog Amaeth, Senedd yr Alban a'r Cynulliad yn cydweithio gyda'r nod o sefydlu mecanweithiau apelio tebyg ledled y DU. Y nod oedd creu corff apeliadau y gellid ei fforddio ac nad oedd yn fiwrocraataidd a fyddai'n ystyried achosion ag empathi ac yn rhoi barn annibynnol. Dylai papur ymgynghorol gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth a dylai'r corff gael ei sefydlu erbyn diwedd y flwyddyn. Byddai canllawiau clir yn cael eu cynhyrchu i helpu ffermwyr i ddeall y weithdrefn apeliadau.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn croesawu'r cynigion. Roedd yn siwr fod pob Aelod o'r Cynulliad yn gorfod delio â phroblemau a oedd yn cael eu codi gan ffermwyr y bwriadwyd i'r cynigion hyn ymdrin â hwy. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- dylai'r Cynulliad sefydlu'r corff apeliadau hyd yn oed pe bai'r Alban a Lloegr yn penderfynu peidio â bwrw ati. Nododd y Pwyllgor y byddai'n well cael systemau tebyg ledled y DU ond y gallai Cymru fwrw ati ar ei phen ei hun;
- achoswyd llawer o broblemau gan gamgymeriadau syml, megis peidio â thicio blwch ar ffurflen a'r gobaith oedd y byddai'r system yn delio â'r rhain? Nododd y Pwyllgor na fyddai'r corff apeliadau yn delio â manylion bach. Byddent yn mynd i'r afael â'r rhain drwy gyfrwng canllawiau gwell a chynghor mwy hygyrch gan staff yn y swyddfeydd rhanbarthol;
- nododd y Pwyllgor nad oedd dim yn Rheoliadau'r UE i atal y mecanwaith arfaethedig. Fodd bynnag, byddai angen ystyried Erthygl 6 o'r Cytundeb ar gyfer Diogelu Iawnderau Dynol a Rhyddid Sylfaenol;
- nododd y Pwyllgor mai un o brif gwynion y diwydiannau ffermio oedd diffyg cyfranoldeb yn y system gosbi. Roedd hyn yn cael ei drafod â'r CE;
- yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, roedd yn ymddangos mai'r cynnig a nodwyd ym

mharagraff 16 o'r papur oedd yr opsiwn gorau. Pa system bynnag a fyddai'n cael ei mabwysiadu roedd yn rhaid iddi fod yn agored, yn eglur ac yn deg.

Wrth grynhoi'r drafodaeth dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn croesawu'r cynnig i sefydlu corff apeliadau annibynnol ac i ddarparu canllawiau clir i ffermwyr. Gofynnodd i Gareth Jones gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad i'r Pwyllgor fel y gallai ystyried union natur y corff apeliadau.

Pwyntiau gweithredu

Nodyn i'w ddarparu ar y mecanweithiau apelio mewn aelod-wladwriaethau eraill o'r UE - **Gareth Jones** (gweler Atodiad 3)

Eitem 5: Arolwg o'r rhaglen arall gyfeirio a'r flaen-raglen waith - Papur ARD 02-00(p.2)

Ystyriodd y Pwyllgor yr amserlen arfaethedig ar gyfer yr arolwg o'r rhaglen arallgyfeirio a'r flaen-raglen waith

Dywedodd y Cadeirydd fod y papur a baratowyd gan yr Ysgrifenyddiaeth yn nodi'r cynigion ar gyfer cynnal yr arolwg. Roedd yn cynnig cyfres o dair sioe deithiol ledled Cymru yn ystod mis Mawrth ac yn nodi'r cwestiynau y dylai cyfranogwyr ymdrin â hwy. Awgrymwyd pynciau i'w trafod a'r cyrff i'w gwahodd i gyfrannu yn ystod camau cynnar yr arolwg. Gofynnwyd hefyd i'r Pwyllgor ystyried a ddylid derbyn cynigion i ymweld â phrojectau arallgyfeirio yn Nhrefaldwyn. Roedd y sioeau yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor gael adborth o ystod eang o faterion gwledig. Nodwyd bod yr astudiaeth arallgyfeirio a oedd yn cael ei hariannu gan Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cynulliad yn un ar wahân ond y byddai'n cyfrannu gwybodaeth at arolwg y Pwyllgor ar ôl ei chwblhau ymhen ychydig fisoedd. Byddai'r astudiaeth, a oedd yn cael ei chynnal gan Golegau'r Alban, yn cwmpasu buddiannau economaidd sectorau amgen. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- byddai'r cyfarfodydd ymgynghori arfaethedig yn ddefnyddiol ond byddai hefyd yn werthfawr i'r Pwyllgor gyfarfod â phobl a oedd wedi arallgyfeirio'n llwyddiannus fel y gallai'r gwersi gael eu trosglwyddo. Dim ond ar gyfer tua 10% o ffermwyr yr oedd arallgyfeirio yn opsiwn;
- elfen bwysig wrth annog arallgyfeirio oedd darparu hyfforddiant i ledaenu ystod sgiliau ffermwyr ifanc, gan gynnwys busnes a chyfrifo fel eu bod yn gallu wynebu sialensau'r dyfodol yn well. Nododd y Pwyllgor fod addysg a hyfforddiant yn hollbwysig ac yn thema gyson yn y Strategaethau Amaeth-Fwyd a "Farming Connect"/"Cyswllt Ffermio". Gallai'r Pwyllgor ystyried gwahodd Fred Cunningham o Goleg Llysfasi, a oedd yn cynnal astudiaeth gysylltiedig, ar ôl iddi gael ei chwblhau;
- byddai'n bwysig i'r Pwyllgor weithio'n agos gyda sefydliadau eraill. Roedd cyfle i gael ymagwedd fwy arloesol tuag at ddatblygu twristiaeth o ansawdd uchel;
- gellid cryfhau'r economi wledig drwy annog ffermwyr i sefydlu cwmnïau cydweithredol i brosesu cynnyrch lleol ac ychwanegu gwerth.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno ar y cynigion ar gyfer yr arolwg a nodwyd yn y papur, gan gynnwys y tair sioe deithiol ym mis Mawrth, a gofynnwyd i'r Aelodau anfon awgrymiadau ar gyfer cyrff y dylai'r Pwyllgor gyfarfod â hwy at yr Ysgrifenyddiaeth.

Pwyntiau gweithredu

Cyfarfodydd i'w trefnu yng Nghaerfyrddin ar 9 Mawrth, Llandudno ar 16 Mawrth a Llandrindod ar 23 Mawrth fel y cynigiwyd yn y papur - **Yr Ysgrifenyddiaeth**

Eitem 6: Taliadau Arolygu Hylendid Llaethdai

Dywedodd Christine Gwyther mai'r opsiwn dewisol o hyd oedd cyflwyno cais ar y cyd â MAFF i'r CE i ddileu'r taliadau yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, ymddengys yn fwyfwy tebygol y byddai MAFF yn penderfynu peidio â dileu'r taliadau yn Lloegr. Os felly byddai cais yn cael ei gyflwyno i ddileu'r taliadau yng Nghymru yn unig ac roedd Nick Brown wedi cytuno i'w hwyluso. Rhybuddiodd y byddai'n anodd iawn cael cymeradwyaeth y CE.

Nododd y Cadeirydd fod y pwyllgor wedi ei feirniadu am fethiannau gan gynnwys cig eidion ar yr asgwrn, y cynllun prosesu lloi a thaliadau hylendid llaethdai. Roedd hyn yn annheg oherwydd roedd yna faterion lle roedd y Pwyllgor wedi ceisio dilyn polisi Cymreig pendant.

Dywedodd Huw Brodie fod nodyn wedi'i ddarparu i'r Pwyllgor yn crynhoi'r sefyllfa gyfreithiol (Atodiad 2) a chadarnhaodd fod yr Adran Amaethyddiaeth yn gweithio gyda swyddogion MAFF a UKREP i lunio achos ar gyfer dileu'r taliadau yng Nghymru. Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- roedd y farn bod dileu'r taliadau yng Nghymru ond nid yn Lloegr yn rhoi ffermwyr Cymru o dan anfantais annheg tra bod y ffaith nad oedd taliadau erioed wedi'u codi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn afresymegol;
- nododd y Pwyllgor fod cysylltiadau wedi'u gwneud ar bob lefel i berswadio MAFF i ddileu'r taliadau yn Lloegr;
- awgrymwyd y gallai'r taliadau gael eu had-dalu drwy ddull amgen. Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw sail gyfreithiol arall fwy na thebyg dros ad-dalu'r taliadau ac y byddai gwneud hynny yn cael ei ystyried fel cymorth gwladol.

Crynowyd y drafodaeth gan y Cadeirydd a nododd fod y Pwyllgor yn ymroddedig i ddileu'r taliadau yng Nghymru a bod cais yn cael ei baratoi. Gofynnodd i'r Pwyllgor gael ei hysbysu'n rheolaidd am unrhyw gynnydd.

Unrhyw fater arall

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn copi o lythyr gan Karen Sinclair i'r Prif Ysgrifennydd a

Christine Gwyther a oedd yn cynnig y dylai'r holl ddodrefn yn adeilad newydd y Cynulliad darddu o bren a dyfwyd mewn coetiroedd cynaladwy yng Nghymru. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd yn cymeradwyo'r cynnig. Dylai'r llythyr hefyd nodi y dylai'r adeilad ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy.

Pwynt gweithredu

Llythyr i'w anfon at y Prif Ysgrifennydd yn cefnogi cais Karen Sinclair i gael dodrefn yn adeilad newydd y Cynulliad sy'n tarddu o goetiroedd cynaladwy yng Nghymru. Llythyr hefyd i i gefnogi'r cais i'r adeilad ddefnyddio ffynonellau ynni cynaladwy - Yr Ysgrifenyddiaeth

Eitem 7: Cofnodion cyfarfod 26 Ionawr Papur ARD 01-00(min)

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 26 Ionawr 2000

Yr Ysgrifenyddiaeth

Chwefror 2000

Atodiad 1

Cliciwch [yma](#) i weld y cyflwyniad gan Yr Athro Pollock - Organeddau wedi'u Haddasu'n Enetig - rôl y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ryddhau i'r Amgylchedd

Atodiad 2

Nodyn i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a baratowyd gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn ymwneud â dileu'r taliadau hylendid llaethdai a chymhorthion gwladol

Y Cefndir Cyfreithiol i Daliadau Arolygu Llaethdai

1. Gweithredodd Rheoliadau (Hylendid) Cynnyrch Llaethdai 1995 (O.S 1995/1086) fel y'u diwygiwyd Gyfarwyddeb Cyngor y CE 92/46 gan bennu'r rheolau iechyd ar gyfer cynhyrchu llaeth a chynnyrch llaeth a'u rhoi ar y farchnad. Dim ond i Gymru a Lloegr yr oeddent yn gymwys er y byddai'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno setiau tebyg o Reoliadau sy'n gymwys i'w gwledydd hwy eu hunain. Cyflwynodd Rheoliadau 1995 gyfundrefn y CE ar gyfer arolygiadau hylendid llaethdai. Cyn hyn roedd y

deddfwriaeth a oedd yn ymwneud ag arolygiadau hylendid llaethdai wedi bod yn rhai mewnol yn gyfan gwbl.

2. O ran taliadau a bennwyd mewn perthynas â'r arolygiadau hynny roedd cyfundrefn codi taliadau mewnol/cartref wedi bod ar waith cyn i Gyfarwyddeb y GE 92/46 ddod i rym. Roedd y taliadau bryd hynny wedi'u pennu drwy gyfrwng Rheoliadau Llaeth a Llaethdai a Llaeth (Dynodiad Arbennig) (Taliadau) 1990 (OS 1990/1584) a wnaed mewn perthynas â Chymru a Lloegr gan y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gweithredu ar y cyd. Pan weithredwyd Cyfarwyddeb 92/46 y CE ym 1995 gan OS 1995/1086 disodlwyd y rheoliadau codi tâl presennol (roedd taliadau wedi bod ers 1987) gan y Rheoliadau Cynnyrch Llaethdai (Taliadau) (Hylendid) 1995 (OS 1995/1122). Fe'u gwnaed o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 gan y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gweithredu ar y cyd. Dim ond i Gymru a Lloegr yr oeddent yn gymwys a dyma'r rheoliadau codi tâl sy'n gymwys heddiw. Trosglwyddwyd cyd-swyddogaethau Gweinidogion o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 drwy rinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru. Mae hyn yn golygu y gall y Cynulliad Cenedlaethol o ran cyfraith gartref mewn perthynas â Chymru ddileu'r taliadau hylendid llaethdai drwy ddirymu OS 1995/1122.

3. Nid yw deddfwriaeth y CE fel y cyfryw, mewn cysylltiad ag arolygiadau hylendid llaethdai, yn gwneud codi tâl yn ofynnol nac yn ei wahardd. Felly mae pennu cyfundrefn codi tâl yn ôl disgrisiwn yr Aelod-Wladwriaeth o fewn cyfyngiadau cyfraith y CE h.y. ni all yr Aelod-Wladwriaeth adennill mwy na chost cynnal yr arolygiadau – gweler achos ECJ y Wladwriaeth (Yr Iseldiroedd)-v-P Bakker Hillegom BV [achos C-111/89].

Yr Alban a Gogledd Iwerddon

4. Fe'm hysbyswyd nad yw'r Alban na Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno cyfundrefn codi tâl debyg i'r un yng Nghymru a Lloegr. Credaf mai'r rheswm am hyn yw am fod yr arolygiadau wedi'u cynnal gan swyddogion awdurdodau lleol ac nid gan swyddogion llywodraeth ganolog. Nid oes gennyf fanylion pellach am unrhyw drafodaethau a allai fod wedi digwydd flynyddoedd yn ôl ar pam y datblygodd y ddwy system yn y Deyrnas Unedig – un yn codi tâl a'r llall ddim. Ond mae'n ymddangos bod y system ddeuol wedi dechrau flynyddoedd cyn i'r gyfundrefn Ewropeaidd a gyflwynwyd gan Gyfarwyddeb 92/46 y CE ddod i rym.

Cymhorthion Gwladol

5. Cynhwysir y rheolau sylfaenol sy'n ymwneud â chymhorthion gwladol y CE yn Erthyglau 87 i 89 o Gytundeb yr UE, mae Erthygl 87(1) yn amodi fel a ganlyn –

" Save as otherwise provided in this Treaty, any aid granted by a Member State or through State resources in any form whatsoever which distorts or threatens to distort competition by favouring certain

undertakings or the production of certain goods shall, insofar as it affects trade between Member States, be incompatible with the common market".

6. Yna â'r Erthygl yn ei blaen i amodi dau brawf arall ar gyfer cymhorthion gwladol

- o Erthygl 87(2) sy'n nodi eithriadau ar gyfer sefyllfaoedd y tybir eu bod yn gydnaws. Ymhlith y rhain mae'r achos yn is-baragraff (b) sef -

"(b) aid to make good the damage caused by natural disasters or exceptional occurrences".

- o Erthygl 98(3) sy'n nodi'r achosion y gellir tybio eu bod yn gydnaws â'r farchnad gyffredin. Mae achosion a allai fod yn berthnasol yn is-baragraffau (a) a (c). Mae'r rhain fel a ganlyn -

"(a) aid to promote the economic development of areas where the standard of living is abnormally low or where there is serious underemployment;

(c) aid to facilitate the development of certain economic activities or of certain economic areas, where such aid does not adversely affect trading conditions to an extent contrary to the common interest".

7. Mae'n ofynnol i bob Aelod-Wladwriaeth hysbysu'r Comisiwn am unrhyw gymorth gwladol cyn iddo gael ei ganiatáu (gweler Erthygl 88(3)). Yna bydd y Comisiwn yn arolygu'r cynigion. Ni ellir gweithredu'r cymorth yn ystod y cyfnod hwn, ond mae'n rhaid i'r Comisiwn ddod i farn gychwynnol o fewn 2 fis. Os na wnaiff hynny bydd gan y Wladwriaeth yr hawl i wneud cynnig am gymorth. Gall y Comisiwn gymeradwyo'r cymorth ar ôl ei drafodaethau cychwynnol, ond os na wnaiff bydd yn cychwyn y weithdrefn yn Erthygl 88(2).

8. Mae'r weithdrefn o dan Erthygl 88(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu pob parti dan sylw a'u gwahodd i gyflwyno sylwadau. Mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried y sylwadau hynny cyn dod i benderfyniad naill ai i ganiatáu cymorth neu i'w gwneud yn ofynnol i'r Wladwriaeth dan sylw ddiddymu/newid y cymorth. Os na fydd Aelod-Wladwriaeth yn cydymffurfio â phenderfyniad y Comisiwn yna gellir cyfeirio'r mater i'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd. Mae'r Llys wedi coleddu'r farn y dylai cymhorthion gwladol anghyfreithlon gael eu had-dalu fel mater o egwyddor.

9. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddar wedi cyhoeddi dogfen o'r enw "Community Guidelines for State Aid in the Agriculture Sector". Mae paragraff 1.1 yn cyfeirio at y ffaith –

"Community policy in respect of State aids seeks to ensure free competition, an efficient allocation of

resources and the unity of the Community market. Therefore, the Commission has always shown particular vigilance in this field."

Trafodaeth

10. Y cwestiwn cyntaf i'w ateb yw a fyddai dileu taliadau hylendid llaethdai nawr mewn perthynas â Chymru yn cael ei ystyried yn gymorth gwladol yn amodol ar Erthygl 87(1) o'r Cytundeb. Yn fy marn i mae'n debygol y byddai'r Comisiwn yn ei ystyried felly.

11. Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu polisi caeth iawn tuag at gymhorthion gwladol. Mae ei Ganllawiau a grybwyllwyd uchod, ym mharagraff 3.3 yn nodi fel a ganlyn –

"it should be emphasised that the Commission has consistently taken the view that because of the existence of the common agricultural policy, any aid in the agricultural sector, however small, in favour of certain undertakings or the production of certain goods, must be considered to have the potential to threaten to distort competition and affect trade between Member States. For this reason, the so called '*de minimis* rule' does not apply to aid towards expenditure in connection with agriculture".

12. Gallai ymdrech bendant gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddileu taliadau gael ei hystyried yn fy marn i fel cymorth gweithredol i helpu ffermwyr Cymru ar draul y ffermwyr cyfatebol yn Lloegr; gallai'r budd hwn i ffermwyr Cymru wyrdroi'r farchnad. Pe bai Cymru a Lloegr yn dileu'r taliadau gyda'i gilydd yna yn dechnegol gallai hynny gael ei ystyried o hyd fel cymorth gweithredol ond o leiaf wedyn byddem yn gallu dadlau y dylai hyn fod yn dderbyniol ar y sail bod y disgresiwn sydd gan yr Aelod Wladwriaeth i godi tâl wedi ei ymarfer yn y fath fodd fel ag i wneud y Wladwriaeth gyfan honno yn gyfartal. Byddai'n dod yn fwy o broblem pe bai un rhanbarth o Aelod-Wladwriaeth yn penderfynu dileu taliadau er mwyn creu anghyfartalwch rhanbarthol newydd.

13. Un ddadl bwysig a gyflwynwyd i egluro pam na fyddai dileu taliadau yng Nghymru yn gyfystyr â chymorth gwladol yw, gan nad yw'r Alban a Gogledd Iwerddon yn pennu taliadau tra bod Cymru a Lloegr yn gwneud hynny, pam mewn egwyddor y dylai fod unrhyw wahaniaeth pe bai'r holl wledydd yn y DU heblaw Lloegr yn dewis peidio â chodi tâl. Nid yw OCG wedi cael unrhyw wybodaeth am p'un a ydyw'r Comisiwn wedi ystyried y trefniadau presennol ac a ydynt yn dderbyniol. Efallai y coleddwyd y farn bod yr anghyfartalwch rhanbarthol yn parhau'r system ddeuol a oedd yn gweithredu yn y Deyrnas Unedig ymhell cyn i gyfundrefn y CE ddod i rym ac na fu unrhyw ymdrech ar ôl 1992 i wydroi'r system honno. Nid yw'r cwestiwn a yw'r system bresennol yn dderbyniol yn nhermau'r CE ai peidio o reidrwydd yn golygu y byddai unrhyw ymdrech bendant nawr i newid pethau drwy ddileu taliadau yng Nghymru yn atal gweithred o'r fath rhag cael ei hystyried fel cymorth gwladol.

14. Yr ail gwestiwn i'w ateb yw a allai unrhyw un o'r eithriadau y cyfeiriwyd atynt yn Erthygl 87(2) a (3) (gweler paragraff 56 uchod) fod yn gymwys yma.

15. O ran Erthygl 87(2)(b) mae'n amheus, yn fy marn i, a allai cyflwr cyffredinol o ddirwasgiad

economaidd yn y sector amaethyddol fod yn gyfystyr â "digwyddiad eithriadol".

16. Hefyd, nid wyf yn ystyried y gallai'r eithriad y cyfeiriwyd ato yn Erthygl 87(3)(a) fod yn gymwys i Gymru yn unig. Efallai y gallai rhywun gyflwyno dadl y gellid cyfiawnhau dileu taliadau pe bai'n gymwys i ardaloedd difreintiedig penodol yng Nghymru yn unig ond nid i ardal megis Cymru gyfan lle mae'r amgylchiadau amaethyddol yn amrywio llawer.

17. Ystyriodd Penderfyniad diweddar y Comisiwn Ewropeaidd h.y. Penderfyniad y Comisiwn 1999/591/CE (Cyfnodolyn Swyddogol L277m, 28.8.99) a oedd yn ymwneud â chynllun lladd moch yng Ngogledd Iwerddon, ymhlith pethau eraill, gymhwysiad o Erthygl 87(2)(c) - ac unwaith eto gweler paragraff 6 uchod ynglyn â hyn. Lansiwyd y cynllun hwnnw i leddfu effeithiau tân mewn lladd-dy moch a ddinistriodd 40% o'r gallu i ladd a chigyddio yn yr ardal. Crëwyd gormodedd o foch anwerthadwy, oherwydd wrth i foch fynd yn hyn maent yn mynd y tu hwnt i'r pwysau mwyaf ar gyfer lladd. Arweiniodd yr ôl-groniad at broblemau lles difrifol hefyd i ffermydd.

18. Dylid nodi nad yw'r Comisiwn yn ystyried bod y tân yn y lladd-dy yn "ddigwyddiad eithriadol" o fewn ystyr Erthygl 98(2)(b). Yn eu barn hwy roedd yn "risg fasnachol arferol". Fodd bynnag, mae amgylchiadau penodol y sector moch yng Ngogledd Iwerddon a grëwyd o ganlyniad i'r tân, yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cymeradwyaeth y Comisiwn o'r cynllun cymorth ar sail Erthygl 87(3)(c). Mae'n ymddangos y gellid tynnu'r pwyntiau canlynol o Benderfyniad y Comisiwn 1999/591/CE. Mae cymeradwyaeth o dan Erthygl 87(3)(c) yn ei gwneud yn ofynnol –

- i nodi problem sectoraidd o fewn Aelod-Wladwriaeth nas wynebir yn yr un sector yng ngweddill y Gymuned, neu sydd o leiaf yn fwy difrifol nag unman arall;
- na ddylai unrhyw gymorth a ganiateir roi'r buddiolwr mewn sefyllfa fanteisiol o'i gymharu â chynhyrchwyr eraill yn y Gymuned;
- bod cymorth i sector penodol o fewn un rhanbarth Aelod-Wladwriaeth yn ymdrin â phroblem a wynebir gan y rhanbarth hwnnw yn unig.

Mae gennyf amheuan a allai dileu taliadau arolygu hylendid llaethdai fodloni unrhyw un o'r meini prawf uchod.

19. Dylid nod bod Canllawiau'r Gymuned ar Gymhorthion Gwladol Amaethyddol, ym mharagraff 3.5, yn nodi fel a ganlyn –

"unless exceptions are expressly provided for in Community legislation or aids which are simply intended to improve the financial situations of producers but which in no way contribute to the development of the sector, and in particular aids which are granted solely on the basis of price, quantity, unit of production or unit of the means of production are considered to constitute operating aids which are incompatible with the common market".

20. Yn y cyd-destun hwn credaf y gallai'r Comisiwn edrych ar ddileu taliadau hylendid llaethdai yng

Nghymru fel ffordd o wella sefyllfaoedd ariannol ffermwyr yn hytrach nag fel ffordd o ddabtlygu'r sector llaethdai.

PETER JONES

Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

Atodiad 3

Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.

THE APPEALS PROVISIONS EXISTING IN OTHER MEMBER STATES

The following detail has been obtained about provisions in some other Member States:

Belgium

Claims and payments are assessed and paid by a decentralised service. This service makes a proposal to the competent authority of the central administration where a penalty is to be imposed. The decision to impose the penalty is therefore taken centrally. An appeal against the decision to impose a penalty is lodged either with the Minister or the Directorate-General of the payment body.

Where there is a suggestion that a false declaration has been made intentionally or a suspicion of serious negligence, the dossier is submitted to an internal committee set up by the Minister. The committee is composed of the Director-General of the payment body, and representatives of the Minister's Office, of the General Secretariat, the agricultural policy administration and the Ministry's legal service. Essentially it comprises people who have not taken a direct part either in the initial decision or in the examination of the dossier.

The above procedures are currently being reviewed. In addition, an appeal can be made to a judicial court and the Ombudsman may also be asked to investigate a case.

Denmark

Claims are assessed and payments made by delegated body the 'EU Directorate'. An appeal against a decision of the Directorate is referred to the Directorate who forwards the appeal and associated documentation to the Agriculture Department. The Department then considers the appeal and makes a decision which is notified direct to the farmer and to the Directorate simultaneously. This arrangement is underpinned in national legislation, but the precise arrangements of an appeal are not prescribed.

If a farmer wishes to appeal against a decision of the Agriculture department, he has recourse to the courts through the usual judicial review procedure.

Finland

A decision on the imposition of a penalty is taken by the rural business authority and an appeal may be made to the rural business authority or the rural business district. A decision of the rural business district may be appealed to the Board of Appeal on Rural Industries. This body is established in law and composed of members appointed by public authority and enjoying the same guarantees as judges. It gives legal rulings and an appeal against its decision may be made to the Supreme Administrative Court.

Greece

The process of appeal is not set out independently of the usual options whereby an appeal may be made to the paying authority and subsequently the Minister and ultimately the Courts. Discretion in penalties is applied in accordance with the Commission guidelines, but sanctions are always applied despite any recourse to the Court.

Netherlands

Direct income payments are made by an agency (LASER) of the Ministry of Agriculture, Nature Management and Fisheries. The agency is authorised to make decisions on applications, including the imposition of sanctions. A petition (appeal) against a sanction can be made to the Ministry and a subsequent appeal against a petition decision can be made to the Trade and Industry Appeal Tribunal (CBB). The CBB carries out administrative justice and is an economic governing body authorised to mediate in conflicts between businesses and the Government. The validity of decisions, including their proportionality is assessed by the CBB whose decisions are legally binding. The CBB may also refer matters to the European Court of Justice in Luxembourg.

Portugal

There is no independent appeal mechanism against decisions taken by the paying agency to apply sanctions for irregularities in claims under IACS. Appeals may be made to the paying agency itself, an Administrative Court which may neutralise the decisions made by the paying agency, or the Ombudsman who cannot change the decision but may recommend another course of action. Whenever the paying agency suspects wilful misconduct the file is sent to the Public Prosecutor for criminal proceedings.

Spain

Appeals may be made to the authority above that which made the decision. A decision of the paying agency could be appealed to the Council for Agriculture of the relevant Autonomous Region. The party

has the right to repeat this process if unhappy with the decision. If the appeal is to continue, it must be taken through a legal route by means of administrative proceedings. There is some acknowledgement of the possibility of flexible interpretation of the Community Regulations. However, this is acknowledged as very subjective, open to different interpretation by different EAGGF monitoring officials and represents a serious risk of disallowance to the Member State.

Sweden

A decision on a sanction is taken by the County Board (CB). An appeal against the CB's decision may be made to the Swedish Board of Agriculture (SBA) which is the paying agency. An appeal against a decision of the SBA may be made to the administrative court as a judicial review. In the first instance this would be to regional administrative court in the county of the CB. An appeal against the decision of the regional administrative court can then be made to the Administrative Court of Appeal.

Producers cannot appeal to Ministers. Cases of maladministration may be considered by the Ombudsman.